# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1376(ECT) a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, ar 23 Mawrth 2010

**At Brian Gibbons:**

Yn ystod y cyfarfod llawn ar 3 Mawrth, gofynnoch imi roi mwy o wybodaeth ichi am gynlluniau i wella amlder y gwasanaeth ar y rheilffordd rhwng Maesteg a Chaerdydd, ac rwy'n ysgrifennu atoch gyda'r manylion diweddaraf.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu Network Rail i gynnal astudiaeth dechnegol fanwl o'r gwelliannau sydd angen eu gwneud i'r seilwaith er mwyn gallu cynnal gwasanaeth bob hanner awr rhwng Maesteg a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae'r astudiaeth yn mynd rhagddi yn dda, ac yn unol â'r amserlen, ac rwy'n disgwyl derbyn yr adroddiad dichonoldeb yn hwyrach eleni.

Ar ôl imi dderbyn yr adroddiad hwnnw, byddaf yn edrych ar y manteision a'r costau sy'n gysylltiedig â'r cynnig cyn gwneud penderfyniad ynghylch yr arian. Os bydd yr achos busnes yn gadarn, ac os bydd digon o arian ar gael, mae'n debygol iawn y bydd y gwaith ar y seilwaith rhwng Maesteg a Phen-y-bont ar Ogwr yn cael ei gwblhau erbyn 2012. Byddai hynny wedyn yn galluogi i wasanaeth bob hanner awr weithredu rhwng y trefi hyn.


## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1376(ECT) a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, ar 23 Mawrth 2010


**At Jenny Randerson:**

Yn ystod y cyfarfod llawn ar 3 Mawrth, gofynnoch gwestiwn imi am gynigion Cyngor Gwynedd i werthu tir a fyddai ei angen i ailagor y rheilffordd rhwng Bangor a Chaernarfon. Dywedais wrthych y byddwn yn ysgrifennu atoch ynghylch y mater.

Mae fy swyddogion wedi siarad gyda Chyngor Gwynedd, sy'n berchen y tir lle mae hen lwybr y rheilffordd yn gorwedd. Mae'r Cyngor wedi cadarnhau bod cais cynllunio wedi'i gyflwyno am gyfleuster hamdden cymunedol sy'n cynnwys safle chwaraeon addas i bob tywydd a chyfleusterau newid yn y Felinheli, ac mae'r Cyngor yn gwerthu parsel o dir at y diben hwn.

Mae'r Cyngor wedi cadarnhau nad oes ganddo unrhyw bolisi defnyddio tir penodol sy'n diogelu'r rheilffordd, er bod llwybr beiciau sy'n defnyddio'r hen reilffordd wedi'i ddiogelu. Yn ogystal â hynny, mewn rhai lleoliadau, gan gynnwys safle archfarchnad Morrisons yng Nghaernarfon, mae adeiladau eisoes wedi cael eu codi ar lwybr yr hen reilffordd. Byddai angen astudiaeth fanwl i asesu dichonoldeb ailagor yr hen reilffordd neu agor rheilffordd arall.

Er ei bod hi'n uchelgais gan Gyngor Gwynedd i ailagor y rheilffordd hon, nid oes gan y Cyngor unrhyw gynigion penodol i'r perwyl hwnnw yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.